CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 1af o FEDI 2020 - CYFARFOD RHITHIOL

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.R.Hughes, D.L.Jones, K.Jones, C.Larsen, E.Lovgreen, B.Owen, W.R.Owen, J.W.Parry, S.Sage, M.Sarnacki, I.C.Thomas, R. Thomas, C.Williams

_____

1. **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd K.Richards

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Dim.

3. **Datgan Buddiant Personol**

Eitem 18 – Rhybuddion o Gynnig (1), (2) a (3) – Y Cynghorydd C.Larsen
Eitem 18 – Rhybuddion o Gynnig (1) – Y Cynghorydd W.Tudor Owen

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc**)

(1) Adroddiad Trydanol ar yr Institiwt

Nododd y Clerc fod Archwiliad Trydanol wedi ei gwblhau ar Adeilad yr Institiwt yn gynharach yn y flwyddyn, a'i fod newydd dderbyn yr adroddiad yn deillio o'r Archwiliad. Roedd wedi disgwyl adroddiad manylach ond roedd rhai materion wedi eu marcio yn goch yn yr adroddiad, fel materion brys.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu efo'r Trydanwr i ofyn pa faterion oedd wedi eu nodi yn goch oedd yn beryg, a gwneud trefniadau i wneud y gwaith ar y rheini cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(2) British Gas

Nododd y Clerc bod contract trydan y Cyngor Tref efo British Gas yn dirwyn i ben ar y 5ed o Dachwedd. Fel ddigwyddodd y llynedd, bod Cwmni Business Energy Renewals Ltd yn edrych ar wahanol opsiynau o ran ein contract ar gyfer trydan.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu efo Cwmni Business Energy Renewals Ltd i ddweud fod y Cyngor Tref yn dymuno cael contract blwyddyn efo Pozitive Energy – 100% green Energy.

5. **Cofnodion**

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod Blynyddol – 7fed o Orffennaf 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

ii. Cyngor Llawn – 7fed o Orffennaf 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

iii. Pwyllgor Gwaith – 14eg o Orffennaf 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

iv. Pwyllgor Personél– 16eg o Orffennaf 2020

Cafodd y wasg a'r cyhoedd eu gwahardd ar gyfer yr eitem hon gan ei bod yn ymwneud â materion staffio. Fe'i gwahoddwyd yn ôl ar gyfer eitem 5 v.

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

v. Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn– 23ain o Orffennaf 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

vi. Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn– 6ed o Awst 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

6. **Cyfrifon**

Nododd y Clerc fod Nodyn Credyd o £943.94 wedi dod i mewn gan Regent Gas ar gyfer y costau nwy.

Penderfynwyd:
(1) Derbyn a'u talu.
(2) Gofyn i'r Clerc edrych i mewn pam fod biliau yn dal yn dod i mewn o ran y Goleuadau Nadolig.

7. **Cysoni Cyfrifon**

O ran Incwm – 1479 – Amrywiol Incwm - nododd y Clerc fod y taliad o £27,000 yn cynnwys y £25,000 ar gyfer y Grant Busnes a chyfraniad o £2,000

gan Adra ar gyfer Cofis Curo Corona, a'u gwaith yn ystod yr argyfwng Covid-19.

Penderfynwyd:
(1) Derbyn er gwybodaeth.
(2) O ran 1201 – Goleuadau Nadolig - gofyn i'r Clerc edrych i mewn i'r taliad o £12,632, o ran os mai taliad ar gyfer y llynedd oedd o ynteu blaendal ar gyfer eleni.

8. Adroddiad Blynyddol 2019/20

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2019/20.

Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2019/20, yn amodol ar y diwygiadau canlynol:
(1) Y dylid cyfeirio mwy at Covid-19, a ddechreuodd gael effaith ar waith y Cyngor yn ystod mis Mawrth.
(2) Y dylid datgan yn yr Adroddiad mai'r Gymraeg yw iaith weinyddol y Cyngor.
(3) Y dylid nodi fod llawer o'r gweithgareddau rydym yn cyfrannu tuag atynt yn cymryd lle yn y Gymraeg.
(4) Ar dudalen 3, dylid nodi fod gan y Pwyllgor Cynllunio yr hawl i weithredu.
(5) Ar dudalen 4, dylid cyfeirio at y Galeri yn hytrach na'r Gallery yn y fersiwn Saesneg.
(6) Ar dudalen 4, dylid nodi yn y fersiwn Saesneg mai teitl llawn yr Ŵyl Fwyd ydi Gŵyl Fwyd Caernarfon Food Festival.

9. Cynnal Tiroedd

Cyflwynwyd gwybodaeth o ran y cynlluniau ar gyfer Cynnal Tiroedd yng Nghaernarfon.

Nododd y Clerc:
(1) Bod Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd wedi holi beth oedd bwriad y Cyngor Tref o ran cyfrannu at y drefn torri gwair o fewn y Dref.
(2) Yn y dref mai 3 toriad yw'r drefn arferol, a bod y Cyngor Tref yn cyfrannu yn flaenorol at 2 doriad a chasglu.
(3) Bod y Clerc wedi cysylltu yn ôl, gan ddatgan mai'r bwriad oedd gofyn i Gyngor Gwynedd wneud 4 toriad, a bod y Cyngor Tref yn cyfrannu tuag at 1 o'r rheini, sef fel a ganlyn:

- Elfen Casglu Glaswellt "Cyngor Tref" x 3 – parhau. Roedd y gost hanesyddol yn 3 @ £1137.38 = **£3412.14**

- Torri a Chasglu "Cyngor Tref " x 1 - gan fod amser wedi mynd heibio. Roedd y gost hanesyddol yn **£4847.50**

O ran Mynwent Llanbeblig, nododd y Clerc ei fod wedi cysylltu yn ôl, gan ddatgan mai'r bwriad oedd gofyn i Gyngor Gwynedd barhau gyda'r drefn ganlynol:

- Torri a Gadael "Cyngor Tref " x 2 – parhau. Roedd y gost hanesyddol yn 2 @ **£1820.00** = **£3640.00**

Nodwyd bod yr e-bost gan Glerc Cyngor Cymuned Llandwrog yn amlinellu'r sefyllfa mewn ardaloedd cyfagos.

Nodwyd ymhellach:
(1) Y dylid cael cadarnhad pa dir mae Adra yn ei dorri, hynny yw pa mor aml ac yn lle? Dylid cynnwys hwn mewn unrhyw gynllun. Dylid argymell fod Cyngor Gwynedd ac Adra yn dod at ei gilydd er mwyn cydgordio'r gwaith.
(2) Bod llanast wedi ei adael yn y Fynwent yn ddiweddar wedi torri gwair

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc drefnu cyfarfod gyda Phennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd er mwyn trafod yr holl faterion uchod, yn cynnwys y trefniant a amlinellir yn (3) uchod.

10. Clwb Cymunedol Caernarfon

Cyflwynwyd taenlen o ran niferoedd y mynychwyr a'r gweithgareddau yng Nghlwb Cymunedol Caernarfon.

Mynegwyd siomedigaeth o ran y niferoedd oedd yn mynychu, a bod angen trafod efo'r Gwasanaeth Ieuenctid beth yw eu cynlluniau a sut i godi niferoedd.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc roi gwahoddiad i'r swyddog perthnasol o'r Gwasanaeth Ieuenctid i gyfarfod o'r Cyngor Llawn cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

11. Polisi Baneri

Cyflwynwyd Polisi Baneri drafft i'w fabwysiadu gan y Cyngor.

Penderfynwyd:
(1) Derbyn yr Polisi Baneri drafft.
(2) Gofyn i'r Clerc wirio efo'r Gofalwr os oedd y ddau bolyn fflag yn gweithio.
(3) Buddsoddi mewn fflagiau er mwyn sicrhau fod safon yr holl fflagiau mae'r Cyngor yn berchen arnyn nhw yn gyson.

12. Adeilad yr Institiwt

Gofynnwyd am farn yr aelodau o ran pryd i gynnal cyfarfod y Cyngor Llawn yn Adeilad yr Institiwt unwaith eto.

Cafwyd trafodaeth ar oblygiadau hyn, a nodwyd y dylai unrhyw benderfyniad fod yn seiliedig ar asesiad risg.

Penderfynwyd parhau i gynnal cyfarfodydd yn rhithiol am y tro, a buddsoddi mewn fersiwn arall o "Zoom" fyddai'n hwyluso cyfieithu.

Gadawodd y Cynghorwyr E.Lovgreen a J.W.Parry y cyfarfod am 7.00 p.m.

13. Gwefan y Cyngor

Cyflwynwyd adroddiad yn cyflwyno opsiynau o ran gwefan y Cyngor.

Nododd y Clerc:

(1) Ar 23ain Medi 2019 daeth canllawiau newydd ar wefannau sector gyhoeddus i sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl gydag anableddau.
(2) Ym mis Medi 2020 daeth yn orfodol hyd yn oed i wefannau a grëwyd cyn y ddeddfwriaeth i gydymffurfio gyda'r safonau.
(3) Nad yw'r wefan bresennol yn cydymffurfio'n llwyr gyda'r canllawiau newydd. Mae pob deunydd newydd sy'n mynd iddi yn cydymffurfio, ond mae rhai dogfennau hanesyddol nad oedd posib i beiriannau'r deillion ei ddarllen.
(4) Bod Gwefan y Cyngor Tref bellach dros bum mlynedd o oed ac mae gwefannau wedi newid yn fawr ers iddi gael ei greu. Mae gwefannau newydd gyda delwedd mwy modern gyda llawer o gynghorau lleol, a cynghorau tref o faint tebyg i Gaernarfon.
(5) Bod trafodaeth wedi bod gyda Cwmni Delwedd, sy'n gyfrifol am ein gwefan bresennol, ac mae nhw yn datgan y byddai cynnal archwiliad manwl o'r wefan bresennol yn ddrytach ac yn fwy o waith na creu gwefan newydd. Maent wedi rhoi dyfynbris am gwefan newydd.

Penderfynwyd y dylid cael Grŵp bychan (y Cynghorydd A.Hopcyn / Clerc / Dirprwy Glerc) i edrych yn fanylach ar y mater, gyda'r bwriad wedyn o ffurfio "spec" a fyddai'n arwain at y canlynol:

- **Cael tri pris ar gyfer creu gwefan newydd.**
- **Dewis cyflenwr ar sail pris, safon gwasanaeth a dwyieithrwydd gyda ffafriaeth tuag at gwmniau lleol.**
- **Sicrhau modd i staff a chynghorwyr i fwydo syniadau ac esiamplau o wefannau da i'r cwmni sy'n cyflenwi.**

14. Oergell i Barlwr Y Maer

Gofynnwyd am ganiatâd y Cyngor i brynu oergell ar gyfer Parlwr Y Maer.

Penderfynwyd awdurdodi'r Clerc i brynu oergell ar gyfer Parlwr Y Maer, yn unol â'r trefniadau a amlinellir yn y Rheoliadau Ariannol.

15. Noson Tân Gwyllt

Gofynnwyd am farn y Cyngor o ran a ddylid parhau gyda'r Noson Tân Gwyllt eleni, yn sgîl Covid-19.

Penderfynwyd datgan fod y Cyngor Tref o'r farn na ddylid parhau gyda'r Noson Tân Gwyllt eleni, yn sgîl Covid-19 (ni fyddai unrhyw oblygiadau ariannol i Lewod Caernarfon yn sgîl y penderfyniad).

16. Codi tal am fynediad i'r Wyddfa

Cyflwynwyd Cynnig i Gyfarfod Cyngor Cymuned Llanllyfni, ar yr 11ed o Awst, 2020 o ran codi tâl am fynediad i'r Wyddfa:

"Mae'r cynnig yma yn galw ar y Cynghorydd Dyfrig Siencyn Arweinydd Cyngor Gwynedd i alw Cyfarfod gyda rhanddeiliaid Yr Wyddfa yn Siambr y Cyngor tua mis Hydref, i drafod sut mae modd codi tal, ac elwa llawer mwy ar ymwelwyr sy'n cerdded yr Wyddfa.

Sut mae hynny'r digwydd yn fater arall, ynghyd a phwy fydd yn cael yr elw, ond mae 'na nifer o bosibiliadau a syniadau difyr eisoes wedi eu trafod, a'u crybwyll. Anodd credu nad oes modd fod yn ddyfeisgar ac yn flaengar yn yr oes ddigidol hon.

Mae'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn, yn ystyried y cyfarfod yn bosibilrwydd, ac yn cytuno bod angen syniadau newydd."

Penderfynwyd cytuno mewn egwyddor, a gofyn i gyfarfod gymryd lle (rhithiol).

17. Cystadleuaeth Garddio

Cyflwynwyd diweddariad am y Gystadleuaeth Garddio, a nodwyd fod y mater yn cael ei roi gerbron y Pwyllgor Adloniant yn ei gyfarfod ar yr 8fed o Fedi.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

18. Rhybuddion o Gynnig

Cyflwyno'r Rhybuddion o Gynnig canlynol:

Y Cynghorydd E.R.Hughes:

(1) Fflatiau yn Nhre Gof a Phendalar

"Mae genna'i bryder am y bobol bregus sy'n byw yn y Fflatiau yn Nhre Gof a Phendalar.

Mae'r ynni mae nhw yn ei ddefnyddio yn ddrud. Economy 7 sy'n cael ei ddefnyddio. Tydi hwn ddim yn addas i bobl sydd ar cyn lleied o bres.

Mae genna'i rhai pobl ifanc dwi'n gweithio hefo nhw byth gyda gwres oherwydd mae'n anodd i'w ddeall ac yn ddrud i'w redeg.

Rwy'n gobeithio cael sgwrs gydag ADRA i weld beth fuasai nhw'n gallu ei gynnig, efo help y Cyngor."

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Adra yn mynegi pryder am y sefyllfa, ac i ofyn am gyfarfod rhwng Adra â'r Clerc, a'r Cynghorwyr E.R.Hughes, D.L.Jones a W.Tudor Owen.

(2) Biniau

"Rwyf wedi cael cwynion bod biniau ar draws y ffrynt o'r Anglesey ymlaen i'r Eglwys ddim yn dod yn ôl blwyddyn yma.

Mae hyn wedi cael ei ddweud gan Ymddiriedolaeth yr Harbwr.

Mae llawer o faw ci yno, hefyd y gwydrau plastic yn chwythu i'r mor.

A fuasem yn gallu holi be sydd yn digwydd gyda'r biniau i sirhau bod y lle cael ei gadw yn daclus i bawb."

Nodwyd:

(1) Bod yr ardal wedi ei lanhau erbyn hyn ond bod y baw ci wedi dechrau dychwelyd.
(2) Bod argymhelliad wedi ei dderbyn i beidio rhoi'r biniau yn ôl, ond bod hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

(3) Y Cynghorydd Maria Sarnacki:

Rwy'n siŵr eich bod wedi clywed a gweld y lluniau o'r broblem a gawsom yn ddiweddar gyda faint o sbwriel sydd ar ôl ar hyd ochr y cei ac o amgylch y dref.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Cyng Ioan Thomas am ddelio â mater sbwriel ar hyd y promenâd ac i gyngor Gwynedd am eu hymateb prydlon i glirio'r llanast.

Hoffwn gyflwyno cynnig:

"Cynigiaf ein bod fel Cyngor Tref yn mynd at Gyngor Gwynedd a Keep Wales Tidy, i edrych ar ffyrdd gwell o reoli'r broblem hon, ac i weld a allwn gynnig rhai syniadau, a chydweithio.

Efallai gwell arwyddion neu ymgyrch, fel Keep Caernarfon Tidy / Cadwch Caernarfon yn Daclus. Mae hefyd yn frawychus nad yw Ymddiriedolaeth yr Harbwr wedi rhoi'r biniau yn ôl ar hyd y promenâd.

Rwy'n teimlo bod pandemig eleni wedi cael effaith mawr ar ein twristiaeth, ac rydym wedi gweld cynnydd yn y twristiaid i'n cefn gwlad hardd wrth i bobl ddewis aros yn lleol ac o fewn y DU, ac yn dewis Caernarfon ac Eryri am eu gwyliau.

Rwy'n teimlo y bydd yr un peth y flwyddyn nesaf ac mae angen i ni fod yn barod am hyn."

Nodwyd bod y sefyllfa wedi gwella erbyn hyn.

Penderfynwyd gwahodd Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwaith er mwyn trafod y gwahanol opsiynau.

(4) Y Cynghorydd Eleri Lovgreen:

"Fel cynrychiolydd y Cyngor ar y grŵp Cyswllt Canol Trefi, credaf fod angen i'r Cyngor helpu busnesau'r dre drwy adael iddynt wybod pa gymorth sydd ar gael iddynt. Hoffwn gynnig felly bod y Cyngor yn cynhyrchu taflen wybodaeth gryno yn rhestru'r ffynonellau cymorth sydd ar gael.

Gallai'r daflen gael ei dosbarthu gan y cynghorwyr, er mwyn dangos cefnogaeth y Cyngor i fusnesau'r dre yn y cyfnod anodd hwn."

Ni chafodd yr eitem ei thrafod gan fod y Cynghorydd E.Lovgreen eisoes wedi gadael y cyfarfod.

Gadawodd y Cynghorydd E.R.Hughes y cyfarfod am 7.45 p.m.

(5) Y Cynghorydd Ann Hopcyn:

"Mae'r Cyngor Tref yn galw ar Gyngor Gwynedd i weithredu mesurau i ddeilio gyda gwersylla anghyfreithlon (mewn faniau gwersylla, yn bennaf) fel a welir ar Y Foryd yn gyson."

Nodwyd ymhellach:

(1) Bod ardaloedd yn yr ardal yn cael eu rhestru ar wefan "Search for Sites" fel ardaloedd y gellid gwersylla am ddim. Roedd hyn yn creu problemau o ran sbwriel ac yn y blaen.
(2) Y byddai'n syniad cynnal peilot yng Nghaernarfon o ran gorfodaeth er mwyn cael gwared â gwersylla anghyfreithlon, er mwyn gweld os fyddai'r broblem yn lleihau.
(3) Efallai y byddai rhoi llinellau melyn dros Bont yr Aber yn gymorth.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn nodi pryderon y Cyngor Tref, ac i ddatgan fod angen ffyrdd o ddatrys y broblem.

19. Cwestiynau

Dim.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.55 p.m.

Arwyddwyd .....

Dyddiad .....